ADRAN 8

8. Y Pwyllgor Safonau

Cyfansoddiad

8.1 Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 9 o Aelodau. Mae ei Aelodaeth yn cynnwys:

8.1.1 5 o Aelodau "annibynnol", nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn Swyddogion nac yn briod i Gynghorwyr na Swyddogion o'r Cyngor hwn neu unrhyw Awdurdod perthnasol arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a benodwyd yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd);

8.1.2 3 o Gynghorwyr heblaw am yr Arweinydd neu Aelod o'r Cabinet; a

8.1.3 1 Aelod o Gynghorau Cymuned.

8.2 Cyfnod yn y Swydd

8.2.1 Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o bedair blynedd o leiaf ond dim mwy na chwe blynedd, a cheir eu hailbenodi am gyfnod olynol nad yw'n fwy na phedair blynedd.

8.2.2 Bydd gan Aelodau awdurdodau lleol sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Safonau gyfnod yn y swydd o ddim mwy na phedair blynedd neu hyd nes yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf, pa un bynnag sydd fyrraf. Ceir eu hailbenodi am un cyfnod olynol arall.

8.3 Cworwm

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn gwneud cworwm dim ond pan fydd:

8.3.1 o leiaf 3 o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd, yn bresennol; ac

8.3.2 o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

Er osgoi amheuaeth bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.

8.3.3 Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.

8.4 Pleidleisio

Bydd gan Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cynghorau Cymuned yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

8.5 Cadeirio'r Pwyllgor

8.5.1 Dim ond Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a gaiff fod yn Gadeirydd.

8.5.2 Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ba un bynnag o'r canlynol yw'r cyfnod byrraf:

(i) dim llai na phedair blynedd neu ddim mwy na chwe blynedd; neu

(ii) hyd nes bod cyfnod yr Aelod Annibynnol yn y swydd yn dod i ben.

8.6 Rôl a Swyddogaeth

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

8.6.1 hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

8.6.2 cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

8.6.3 cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

8.6.4 monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

8.6.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau;

a'r swyddogaethau penodol yma—

8.6.6 monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

8.6.7 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

8.7 Rhaglen Waith

Bydd y Pwyllgor yn paratoi rhaglen waith, a fydd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo ym mhob cyfarfod Pwyllgor.

8.8 Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod

8.8.1 Bydd Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4 yn berthnasol i gyfarfodydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

8.8.2 Wrth ystyried ymddygiad Cynghorwyr unigol, bydd y gweithdrefnau a amlinellir yn Atodiad 2 i Adran 18 yn berthnasol.